

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol O.M. Edwards

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn meithrin y disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu a'u chwarae. Mae staff yn cefnogi lles a dysgu y disgyblion yn effeithiol.

Mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb y disgyblion, gan gynnig adborth a chymorth defnyddiol iddynt. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith yn ddigon effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau yn dda. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblon yn datblygu'n effeithiol. Er hyn, nid yw eu medrau Saesneg yn datblygu i'r un safon. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau rhif, creadigol a digidol y rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni. O ganlyniad, mae rhieni'n  hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant.

Mae staff yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion gyda chysylltiadau cymunedol gwerthfawr yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn chwarae rhan greiddiol wrth gymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol, cystadlu yn yr eisteddfod leol a chasglu sbwriel i harddu'r ardal leol. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd yn cyfrannu at ddatblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cydwybodol sy'n ymfalchïo yn eu cymuned a'u hamgylchfyd.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

- **A1 Datblygu medrau Saesneg disgyblion**
- **A2 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.